

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 18 o Fai 2021.

Presennol: Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen a Einir Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc).

Parc Solar Traffwll

Cyflwyniad gan James Hartley-Bond, Arweiniol Prosiect Carbon Isel Isel.

Mae'r prosiect presennol yn cynnwys dau blot i'r de o Fryngwran, wrth Cae'r Ddol / Llechylched a Ty Rhos (Plot 4 a 5) a phlot 6 wrth Glangors i'r gorllewin o Lanfihangel-yn-Nhywyn. Prif Bwyntiau:

- Byddai'r safleoedd yn cael eu cysylltu gan geblau o dan ddaear. Y bwriad oedd i rain rhedeg ar hyd y briffordd hyd at y Gorsaf Bŵer yng Nghaergeiliog gan y byddai'n rhaid i bob tîrffediannwr gytuno i unrhyw lwybr arall. Byddai unrhyw newid i'r llwybr yn fater ar wahân a byddai'n rhaid cyfeirio cais am hynny at Gynllunwyr y Cyngor Sir.
- Maint y safleoedd – tua 148 erw, gyda 20 erw wedi'i neilltuo ar gyfer creu tir gwlyb wrth Glangors, gyda 1 km o wrychoedd newydd i'w plannu
- Byddai'r paneli dim uwch na 3 metr a byddai'r seilwaith ategol tua'r un faint a garej ddomestig. Byddai y rhain o leiaf 50 metr o eiddo preswyl.
- Bydd y rhan fwyaf o'r cerbydau mawr (tua.330) yn mynd i blot 4 gyda cherbydau llai (10m o hyd) yn teithio yn ôl a blaen drwy Gyffordd 4 o'r A55 i Glangors.
- Amserlen ar gyfer adeiladu - 4 i 5 mis, bydd rhywfaint o gyfleon i bobl leol adeiladu llwybrau, ffensys, plannu ac ati.
- Dim ond 0.2% o'r tir fyddai'n sylfaen galed, bydd y gweddill yn dir glaswelltir ar gyfer pori defaid ac ardaloedd blodau gwyllt. Byddai pob llwybr cyhoeddus yn cael ei barchu.
- Byddai'r prosiect yn gyfyngedig i 40 mlynedd
- Buddion cymunedol - roeddent wrthi yn trafod Perchnogaeth Cymunedol gyda Menter Môn, byddai hyn yn golygu symiau mwy o arian cymunedol. Ni chafwyd sylwadau ar sut y byddai'r manteision yn cael eu gweinyddu na pwy fyddai'n elwa, ond pwysleiswyd y byddai'n rhaid i'r arian fod ar gyfer prosiectau cynaliadwy yn unig.
- Byddai cyfnod ymgynghori ffurfiol yn cychwyn yn fuan ac roedd cais cynllunio yn debygol o gael ei gyflwyno ddiwedd haf 2021

Mae'r prosiect yn ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), felly bydd y cais yn cael ei wneud i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

1. Ymddiheuriadau: Cyng. Gordon Owen, Sharon Parry a Beryl Salisbury.

2. Datganiad o ddiddordeb - dim.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

3. Cofnodion cyfarfod 18.5.2021 - Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Sharon Parry.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Cae Chwarae – Cyng. Roedd Celfyn Furlong, Gwilym Jones, Einir Thomas a'r Clerc wedi cyfarfod â Craig Redmond a chytunwyd y byddai'n:

Codi ac ail osod y teils o dan y siglenni

Tynnu'r meinciau a oedd wedi pydru gormod i'w trin

Iro'r gosodiadau metal ar y siglenni.

Roedd y gwaith yn debygol o gymryd hyd at ddau ddiwrnod ar £175 y dydd. Byddai'r Clerc yn archebu beth bynnag ddeunyddiau oedd yn angen ar gyfer gwneud y gwaith.

Roedd y Cyngor Sir yn disgwyl i Kenton Jones osod y tŷ chwarae a'r meinciau yn yr wythnosau nesaf.

4.2 Llochesi fws - Dywedodd Cyng. William Victor Owen bod gordyfiant wrth ddau safle bws a byddai mynd yn ôl i dacluso'r rhain.

4.3 Llwybrau – Roedd y Cyngor Sir wedi trin y gamfa ar ddiwedd y tir ger Llys y Tuduriaid (Llwybr Troed 15) wedi cael ei hatgyweirio ddwywaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gan CSYM, byddent yn awr yn cyhoeddi rhybudd i'r tîrfeddianwyr fod angen iddo gael ei atgyweirio / newid eto a hynny Dylent gymryd cyfrifoldeb amdano y tro hwn.

4.4 Hysbysfwrdd - Byddai Cyng. Furlong yn codi hwn cyn gynted â phosibl.

4.5 Traffwll Solar Parc - Roedd llythyr gan Mr Hywel Hughes ar ran y grŵp sydd yn gwrthwynebu'r fferm solar eisoes wedi'i ddsbarthu i'r aelodau. Trafodwyd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd mewn cyfarfodydd cynharach ond cytunwyd i edrych ar bob pwynt eto cyn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

4.6 Gwersylla Anghyfreithlon ar Draeth Cymyran - Dywedwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu cyfarfod â Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan a chynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Amddiffyn i geisio datrys y problemau yng Nghymyran. Yn y cyfamser, byddai'r Bwrdd Gofalwyr yn gosod arwyddion (dim gwersylla, dim parcio dros nos ac ati) yn y gobaith y byddai yr rhain yn rhwystr i rai. Roedd y Cyngor Cymuned o'r farn y byddai gosod clogfeini yn atal mynediad i gerbydau a beiciau modur i'r twyni; ond nid oedd o blaid gosod giât â chlo ar y lôn gan fod trigolion lleol wedi defnyddio hon am genedlaethau. Roedd yn bwysig eu bod yn parhau i gael mynediad i'r traeth. Ystyriwyd bod rhwystr cyfyngu uchder yn fwy priodol gan y byddai o leiaf yn atal mynediad i garafanau a chartrefi modur.

4.7 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

5. Materion Plwyfol

SignatureChairman

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

6. Penderfyniadau Cynllunio - dim

7. Ceisiadau Cynllunio

- 7.1 **HHP/2021/147 O'r Diwedd, Holyhead Road, Caergeiliog** [Public Register](#)
Cais llawn iar gyfer trosi modurdy presennol i anecs hunangynhwysol – dim gwrthwnebiad

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.5.2021 i 31.5.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £23,110.38, Cyfrif Cadw £3,938.77

8.1 Cyfrifon Terfynol 2020/21

Cafwyd cadarnhad gan yr Archwilydd Mewnol fod y cyfrifon terfynol mewn trefn.

Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon, a gofynnwyd i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflen a'r dogfennau ategol cyn eu cyflwyno i'r Archwilwyr Allanol.

9. Taliadau i'w gwneud :

| | | | |
|-------------------|---------|------------------------|--------|
| Cyflog mis Mai | £243.61 | Archwiliad Cae Chwarae | £45.36 |
| Archwilydd Mewnol | £120 | | |

10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

- 10.1 Mehefin 2021 - Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.
- 10.2 Fw: Asesiad Anghenion Fferyllol - Ymgynghoriad Statudol -
- 10.3 Medwn Môn - sgysiau lleol am anghenion cymunedol.
- 10.4 Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ôl! Gwnewch gais am becyn gardd am ddim heddiw
- 10.5 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon 24ain Mehefin 2021
- 10.6 Datganiad: Ymgynghoriad ar lefel y Dreth Gyngor i 'Ail Gartrefi' wedi cychwyn
- 10.7 Gorchymun Gwahardd Traffig – O gyffordd wrth Ty'n Ddol tuag at Cae Engan
- 10.1 Mehefin 2021 - Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.

11. Adroddiadau Aelodau

Roedd trigolion yn cwyno bod yna fan yn parcio mewn lle peryglus ar y A5 wrth Zealand Park, Caergeiliog, bu dwy ddamwain yno o'i herwydd yn barod. Cytunwyd i ofyn am gyfarfod gyda'r Adran Briffyrdd i weld beth y gellid ei wneud am y parcio a goryrru yn y pentref.

12. Cyfarfod Nesaf 20 Gorffennaf 2021

SignatureChairman